**Dyddiadau ffenestri datgan diddordeb Mai 2024**

| Cynllun | Crynodeb | Dyddiadau ffenestri |
|---|---|---|
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir | Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb) |
| Grantiau Bach – Creu Coetir | Mae Grantiau Bach – Creu Coetir yn gynllun ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir eraill i'w hannog i blannu ardaloedd bach o goed ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol, neu sydd o werth amgylcheddol isel yng Nghymru.<br>Mae arian ar gael i blannu coed cysgodol, coed ar hyd ymyl cyrsiau dŵr, ac yng nghorneli caeau neu mewn caeau bach, i ddarparu cysgod ar gyfer da byw, bioamrywiaeth a thanwydd coed. Mae Grantiau Bach – Creu Coetir hefyd yn cynnig 12 mlynedd o daliadau Premiwm a Chynnal a Chadw mewn perthynas â'r ardaloedd newydd a blannir.<br>Mae ffensio i gadw da byw a cheirw allan, a gatiau i ganiatáu mynediad i'r cyhoedd hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r broses ymgeisio'n fodd o sicrhau bod y cynigion plannu'n cwrdd â gofynion Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) sy'n golygu nad oes angen i gynllun creu coetir gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>Mae cyllid ar gael i blannu ardaloedd sydd rhwng 0.1ha ac 1.99ha.<br>Mwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir | 20fed Mai 2024 – 20fed Mehefin 2024 |
| Tyfu er Mwyn yr Amgylchedd (Hau yr Hydref) | Mae Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn gynllun grant sydd ar gael i bob ffermwr cymwys yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cefnogi tyfu a defnyddio cnydau mewn ffordd sy'n gallu arwain at wella perfformiad amgylcheddol busnes fferm.<br><br>Amcanion y cynllun yw cefnogi ffermwyr i wneud y canlynol:<br><br>• lleihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr.<br>• addasu i newid yn yr hinsawdd a gwneud busnesau fferm yn fwy cadarn.<br>• gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.<br>• cyfrannu at wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth frodorol Cymru.<br><br>Mae cnydau a gweithgareddau a gefnogir drwy'r cynllun Tyfu er \Mwyn yr Amgylchedd wedi'u nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r amgylchedd a'r busnes fferm.<br>Y grant mwyaf y gellir ei ddyfarnu yw **£5,000**. | 3ydd Mehefin 2024 – 12fed Gorffennaf 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r grant lleiaf y gellir ei ddyfarnu yn **cyfateb i'r gyfradd dalu ar gyfer un hectar o gnwd cymwys.**<br><br>Caiff eich cais fod yn fwy na'r uchafswm grant. Os dewisir eich datganiad o ddiddordeb, bydd yr hawliad cysylltiedig yn cael ei gapio i'r uchafswm o £5,000.<br><br>Yr arwynebedd lleiaf y gellir gwneud cais amdano yw un hectar o gnydau gorchudd. Caiff yr arwynebedd lleiaf o un hectar gynnwys nifer o ardaloedd llai mewn mwy nag un parsel cae, ar yr amod nad yw arwynebedd unrhyw barsel cae unigol yn is na 0.10 hectar. Caiff ymgeiswyr rannu'r arwynebedd lleiaf o un hectar ar draws un neu fwy o barseli tir.<br>Am fwy o wybodaeth ewch i<br>https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd | |
| Grantiau Bach Amgylchedd - Carbon | Grant ar gyfer gweithgareddau y gall ffermwyr ymgymryd â nhw i leihau eu hôl troed carbon.<br>Mae proses ddewis Grantiau Bach – Amgylchedd yn asesu pob prosiect gwaith cyfalaf unigol a gyflwynir gan fusnesau fferm drwy Ddatganiad o Ddiddordeb. Nodir sgôr ar gyfer pob prosiect gwaith cyfalaf a'i allu i sicrhau canlyniad tuag at amcanion Grantiau Bach – Amgylchedd o fewn y thema.<br>Bydd y prosiectau gwaith cyfalaf sy'n sgorio uchaf yn cael eu dewis, a bydd rheolwyr tir neu fusnesau fferm yn cael gwybod pa brosiect gwaith cyfalaf a fu'n llwyddiannus hyd at uchafswm o £7,500 fesul Rhif Cyfeirnod Cwsmer, fesul ffenestr datgan diddordeb.<br>Thema'r Ffenestr Grantiau Bach – Amgylchedd hon yw 'Carbon' ac mae'r gweithgareddau cymwys wedi'u dewis am eu gallu i gyfrannu at wella nodweddion y dirwedd, gwella bioamrywiaeth, dal a chadw carbon, a darparu cynefin ar gyfer pryfaid peillio.<br>Mwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd | 20fed Mai 2024 – 28ain Mehefin 2024 |
| Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau | Grant ar gyfer offer i wella rheolaeth o faethynnau ar fferm.<br>Dim ond yr eitemau a restrir yn y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys fydd yn gymwys i gael taliad.<br>Rhaid i'r eitemau a brynir fodloni neu ragori ar y fanyleb ofynnol a ddisgrifir.<br>Uchafswm y grant yw £12,000 a'r isafswm yw £3,000. Mae'r grant yn darparu hyd at 40% o werth buddsoddiadau cyfalaf safonol sydd wedi'u costio (ac eithrio TAW) y nodwyd ymlaen llaw eu bod yn cynnig buddiannau clir a mesuradwy i fusnesau fferm.<br>Caiff eich cais fod yn fwy na'r uchafswm grant. Os dewisir eich datganiad o ddiddordeb, bydd yr hawliad cysylltiedig yn cael ei gapio i'r uchafswm o £12,000.<br>Yr uchafswm grant sydd ar gael i ymgeiswyr cymwys yw £12,000.<br>Ceir manylion pellach am y costau safonol a manyleb o'r eitemau cymwys a manylion y cynllun ar:<br>https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-gorchuddio-iardiau | 20fed Mai 2024 – 28ain Mehefin 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| Grant Creu Coetir | Mae'r Grant Creu Coetir yn darparu cymorth ariannol i greu ardaloedd coetir mwy o faint neu ardaloedd bach nad ydynt yn gymwys ar gyfer Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir.<br>Yr ardal leiaf y gellir gwneud cais ar ei chyfer yw 0.25ha. Does dim ardal fwyaf.<br>Mae'r cynllun yn darparu cyllid ar gyfer plannu coed a gosod ffensys a gatiau.<br>Mae hefyd yn cynnig 12 mlynedd o daliadau premiwm a chynnal a chadw (i wneud iawn am golli incwm amaethyddol).<br>Nid yw plannu coed fel rhan o'r cynllun yn golygu colli taliadau na chymhwysedd y tir ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS),<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir | 4ydd Mawrth 2024 – 22ain Tachwedd 2024 |